CYMWYSTERAU CYMRU

Cylch Gorchwyl

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Pwrpas

1. Pwrpas y pwyllgor hwn yw goruchwylio'r polisi cydnabyddiaeth ariannol. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, pensiwn, buddion a thelerau ac amodau.

2. Mae gan y Pwyllgor hefyd rôl i gefnogi Cadeirydd y Bwrdd i recriwtio'r Prif Swyddog Gweithredol a darparu cymorth i'r Prif Weithredwr, lle bo angen, wrth recriwtio Cyfarwyddwyr Gweithredol.

3. Yn achos aelodau'r Bwrdd, bydd angen i unrhyw newidiadau i'r telerau ac amodau cyffredinol gael eu cyfeirio at yr Uned Noddi yn Llywodraeth Cymru gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

4. Rhaid i'r Bwrdd gytuno ar argymhellion y Pwyllgor cyn cymryd unrhyw gamau, ac eithrio'r Polisi Cyflog y mae'r Bwrdd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor.

Rôl

5. Rôl y pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:

    a. Penderfynu ar unrhyw gynigion i newidiadau yn y telerau ac amodau cyffredinol i staff. (Ni fydd unrhyw aelod o staff yn rhan o unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u cydnabyddiaeth ariannol eu hunain);
    b. Adolygu priodoldeb a pherthnasedd parhaus y polisi cydnabyddiaeth ariannol
    c. Penderfynu ar unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi a chwmpas trefniadau pensiwn staff;
    d. Y polisi mewn perthynas â newidiadau mawr yn strwythurau buddion gweithwyr ar draws y sefydliad, cyflog, pensiwn, buddion a thelerau ac amodau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol;
    e. Recriwtio Prif Weithredwr, ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd. Dylai hyn gynnwys cynllunio olyniaeth;
    f. Unrhyw wyro oddi wrth bolisi, gan sicrhau bod telerau cytundebol ar derfynu, ac unrhyw daliadau a wneir, yn deg i'r unigolyn, a'r sefydliad, nad yw methiant yn cael ei wobrwyo a bod y ddyletswydd i liniaru colled yn cael ei gydnabod yn llawn;
    g. Adolygu'n ffurfiol cylch gwaith y Pwyllgor yn flynyddol ac yn barhaus yn anffurfiol.

    Wrth gyflawni'r rolau uchod, bydd y pwyllgor yn ystyried yr holl ffactorau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol gan gynnwys gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, darpariaethau ac argymhellion y Cod Llywodraethu Corfforaethol a chanllawiau cysylltiedig.

Awdurdod Dirprwyedig

6. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r broses o gymeradwyo'r Polisi Cyflog i'r Pwyllgor.

7. Y Pwyllgor sydd i benderfynu ar unrhyw beth newydd, dadleuol neu o arwyddocâd cenedlaethol arbennig y mae angen i'r Bwrdd ei gymeradwyo a dylai hefyd adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

Aelodaeth a Phresenoldeb

8. Bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys pedwar Aelod Anweithredol, ac un ohonynt fydd Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru.

9. Dylai'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol fynychu a chynorthwyo'r pwyllgor ond ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff fod yn bresennol i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau, er enghraifft y Pennaeth AD. Gall gweddill yr aelodaeth amrywio, yn ddibynnol ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen. Gellir cyfethol cynghorydd cyfreithiol i'r pwyllgor, os oes angen, yn ychwanegol at ei aelodaeth arferol.

10. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fydd tri aelod.

Cerfnogaeth

11. Cefnogir y pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn brif gyswllt i'r pwyllgor â'r sefydliad, yn gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, yn hwyluso sefydlu'r pwyllgor, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol ac arbennig. Bydd y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn gweinyddu penodiadau newydd/ailbenodi holl aelodau pwyllgor Cymwysterau Cymru a chynrychiolwyr ar bwyllgorau/grwpiau allanol.

Modus Operandi

12. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau fel y bo'n briodol, er enghraifft gan Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol a Phennaeth AD y sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd drwy ei gofnodion (a gyflwynir gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

13. Gall Cadeirydd y Pwyllgor gymeradwyo argymhelliad gan y Pwyllgor neu benderfyniad i'w wneud y tu allan i'r pwyllgor ffurfiol, yn yr amgylchiadau hyn bydd yr argymhelliad neu'r penderfyniad yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

14. Cynigir y bydd y pwyllgor hwn yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn ac y bydd yn adrodd i'r Bwrdd. Gall y Pwyllgor weithredu a chwrdd tu allan i'r pwyllgor ffurfiol lle bo hynny'n briodol i gyflawni ei fusnes.

Tachwedd 2022